



---

Astudiaethau israddedig mewn

# **Amaethyddiaeth, Gwyddor Anifeiliaid a Cheffylau**

---

# Cynnwys

Croeso	t.1
Ein cyrsiau	t.2
Cyrsiau sylfaen	t.18
Cynlluniau Meistr integredig	t.20
Blwyddyn integredig mewn diwydiant	t.22
Cyfleoedd byd-eang	t.24
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	t.26
Ymchwil	t.28
Uchafbwyntiau ymchwil	t.30
Sut i wneud cais	t.32



## Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mai 2022), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Croeso i'r Adran Gwyddorau Bywyd, canolfan ymchwil ac addysg o safon fyd-eang yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Rydym yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer eich datblygiad academiaidd a phersonol, gyda'r cyfleusterau diweddaraf ac ysgoloriaethau hael. Bydd darlithwyr ymroddgar ac ysbrydoledig yn dod â'ch cwrs yn fyw. Arweinir llawer o'n haddysgu gan ddiddordebau ymchwil blaengar ein staff.

Yn Adran Gwyddorau Bywyd gallwn gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i chi, yn cynnwys darlithoedd a seminarau rhyngweithiol, dosbarthiadau labordy, grwpiau tiwtorial bach, a chyrsiau maes. Mae'r hyblygrwydd o allu dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau gwahanol yn golygu y gallwch deilwra eich cwrs i'ch diddordebau unigol. Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys arholiadau, adroddiadau labordy, cyflwyniadau a thraethodau, gyda'r cyfan wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich setiau sgiliau penodol i'r pwnc, sgiliau personol a throsglwyddadwy.

Mae Aberystwyth ar lannau bae Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru, mewn amgylchedd naturiol syfrdanol. Mae'r ardal yn cynnig morlin gwych ynghyd ag eangderau o weundir a dyffrynnoedd coediog, sy'n golygu mai Prifysgol Aberystwyth yw'r lle delfrydol i astudio ecoleg a phyncliau cysylltiedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a chyfleoedd eraill yn y llyfryn hwn. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr.

**Yr Athro Iain Donnison  
Pennaeth Adran**



# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Amaethyddiaeth	t.3
Amaethyddiaeth (cynllun atodol)	t.4
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid	t.6
Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes	t.8
Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol)	t.9
Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol	t.10
Biowyddorau Milfeddygol	t.12
Gwyddor Anifeiliaid	t.13
Gwyddor Ceffylau	t.13
Gwyddorau Bywyd	t.16

## Graddau sylfaen

Amaethyddiaeth	t.18
----------------	------

## Cynlluniau Meistr integredig

Amaethyddiaeth	t.20
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid	t.20

## Rydym yn hefyd cynnig:

- Biocegeg (BSc, 3 blynedd)
- Biocegeg (MBiol, 4 blynedd)
- Bioleg (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg (MBiol, 4 blynedd)
- Bioleg (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Bioleg a Newid Hinsawdd (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg a Newid Hinsawdd (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Bioleg Ddynol ac Iechyd (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg Planhigion (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (MBiol, 4 blynedd)
- Cadwraeth Bywyd Gwyllt (BSc, 3 blynedd)
- Ecoleg (BSc, 3 blynedd)
- Geneteg (BSc, 3 blynedd)
- Geneteg a Biocegeg (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Gwyddorau Biofeddygol (BSc, 3 blynedd)
- Microbioleg (BSc, 3 blynedd)
- Microbioleg (MBiol, 4 blynedd)
- Swoleg (BSc, 3 blynedd)
- Swoleg (MBiol, 4 blynedd)
- Ymddygiad Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)

# Amaethyddiaeth ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D401)

Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae gennym enw da ers amser maith am ein haddysgu a'n hymchwil ym maes Amaethyddiaeth. Tra'n astudio yn yr Adran Amaethyddiaeth, byddwch yn magu ystod eang o sgiliau, ac yn ategu'ch astudiaethau academiaidd yn y brifysgol drwy ymweld yn rheolaidd â ffermydd masnachol a busnesau. Trwy hynny, byddwch yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf gan wyddonwyr blaengar ym maes ymchwil amaethyddol.

Her fyd-eang sy'n wynebu Amaethyddiaeth yw bwydo poblogaeth gynyddol yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau, ynghyd â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, ac i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Mae amaethyddiaeth yn wynebu blaenoriaethau newydd yn agosach i gartref hefyd, wrth i'r Deyrnas Unedig ailddiffinio ei pherthynas ag Ewrop. Ar y radd hon byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar amaethyddiaeth, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae byd amaeth yn newid. Byddwch hefyd yn dysgu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy. Gyda gradd mewn Amaethyddiaeth, gallwch fabwysiadu'r arferion gorau sy'n ymgorffori'r ymchwil gyfredol orau oll, a bydd hynny'n eich galluogi i ymdrin â heriau rheoli da byw a chnydau a sicrhau'r canlyniadau gorau i'ch busnes amaethyddol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Amaethyddiaeth yn Aberystwyth:


- cael eich dysgu gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw yn eu maes addysgu
- ymweliadau â ffermydd, sefydliadau ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- y cyfle i gwblhau blwyddyn profiad gwaith gyda chymorth tiwtor i ddatblygu sgiliau a gwella cyfleoedd gyrfa.


### Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus mewn sawl maes mewn amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig gan gynnwys rheolaeth mentrau amaethyddol neu fferm, iechyd a maeth anifeiliaid, gwleidyddiaeth a gweinyddu amaethyddol, agronomeg cnydau a glaswelltir, yn ogystal â gyrfaoedd gweinyddol, ymgynghori a gwerthu gyda chwmnïau cyflenwadau amaethyddol.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: H21Y (D401 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 Hyd: 3 blynedd (mae D401 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Precision Agricultural Technology
- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Business, Economics and Land Use
- Crop and Grassland Management
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu Da Byw/Introduction to Livestock Production Systems
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Diwydiant Amaethyddol/The Agricultural Industry.

### Yr ail flwyddyn:

- Agronomy and Crop Improvement
- Farm Business Management and Appraisal
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd/Food, Farming and the Environment
- Systemau Cynhyrchu Da Byw/Livestock Production Systems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods.

### Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol/Research Project or Critical Review
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth/Advances in Agriculture
- Farm Planning and Advanced Farm Management.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.



# Amaethyddiaeth (cynllun atodol)

## BSc (Anrh)

Mae'r cwrs gradd BSc Amaethyddiaeth (cynllun atodol) blwyddyn o hyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig llwybr uniongyrchol at radd BSc Anrhydedd i'r rhai sydd â chymhwyster FdSc neu HND mewn Amaethyddiaeth (yn amodol ar y graddau) neu gymhwyster cyfatebol. Mae Aberystwyth wedi'i hamgylchynu gan amrywiaeth eang o ffermdir a thir amaeth, a byddwch yn derbyn addysg academiaidd o safon uchel yn ystod y cwrs hwn.

Ar y radd BSc Amaethyddiaeth (cynllun atodol) byddwch yn magu dealltwriaeth drylwyr o'r technegau cynllunio ym maes rhedeg busnes ffermio, gan gynnwys sut i lunio cynllun busnes ffermio cynhwysfawr a manwl. Cewch hefyd feithrin profiad ymarferol o fod yn ymgynghorydd i reolwr neu berchennog menter neu fusnes amaeth, gan ganfod datrysiadau i'r heriau go iawn sy'n eu hwynebu. Yn ogystal, fe gewch y cyfle i arbenigo ym maes cynhyrchu da byw, cnydau a glaswelltir neu amaeth-amgylchedd trwy ddedol o blith y modiwlau dewisol sydd ar gael.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Amaethyddiaeth (cynllun atodol) yn Aberystwyth:

- cael eich dysgu gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw yn eu maes addysgu
- ymweliadau â ffermydd, sefydliadau ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- y cyfle i gwblhau blwyddyn profiad gwaith gyda chymorth tiwtor i ddatblygu sgiliau a gwella cyfleoedd gyrfa.

### Cyflogadwyedd

Bydd y radd BSc Amaethyddiaeth (cynllun atodol) yn arwain at amrywiaeth o gyfleoedd cyflogadwyedd a hyfforddiant pellach cyffrous. Byddwch yn ymgeisydd cryf ar gyfer gweithio fel ymgynghorydd amaeth, rheolwr fferm neu agronomydd, ac ystod eang o swyddi yn y diwydiannau ategol a gyda'r llywodraeth ac awdurdodau lleol. Byddwch yn datblygu llond gwlad o sgiliau y gellir eu trosglwyddo i bron bob math o swyddi ar gyfer gaddedigion neu weithwyr proffesiynol.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: H22Y.



Hyd: Cwrs atodol blwyddyn o hyd.

## Modiwlau


Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

- Advances in Agriculture
- Farm Planning and Advanced Farming Management
- Adolygiad Beirniadol/Critical Review
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

- Crop and Grassland Production Science
- The Agri-Environment.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.





# Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid 58<sup>+</sup> ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant

(D4D3)

Tra'n astudio Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn elwa o gael eich dysgu gan ymchwilyr sy'n weithgar ym maes clefydau, maeth, atgennedlu ac ymddygiad anifeiliaid, ymhlith meysydd eraill, ac yn elwa hefyd o'n hamrywiaeth o labordai addysgu ac ymchwil. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gartref i VetHub1, cyfleuster ymchwil i iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch sy'n ymchwilio i dwbercwlosis mewn gwartheg, yn ogystal â Chanolfan Barret ar gyfer Rheoli Llyngyr, canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n arwain y frwydr yn erbyn afiechydon llyngyr mewn da byw, megis llyngyren yr iau.

Ar y cwrs hwn, byddwch yn datblygu sylfaen gref o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth. Ynghyd â'r wybodaeth graidd yma, byddwch yn ymdrwytho yng ngwyddor, cynhyrchiant a rheolaeth da byw, gan fanteisio ar ddysg ein hymchwilyr gweithgar. O safbwynt gwyddor anifeiliaid, byddwch yn astudio agweddau ar faeth, ffisioleg atgennedlu, iechyd a bridio anifeiliaid, yn ogystal â biotechnolegau anifeiliaid newydd. Gyda'r sgiliau yma'n gefn i chi, byddwch yn barod i wynebu heriau cynhyrchu da byw, ac yn barod i lwyddo yn eich busnes amaethyddol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth:


- cael eich dysgu gan wyddonwyr blaenllaw a chyfrannu at eu gwaith ymchwil
- ymweliadau â ffermydd, gorsafoedd ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.


### Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus ym maes amaethyddiaeth a diwydiannau'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, gan gynnwys rheoli mentrau da byw, ymgynghori, iechyd, lles a maeth anifeiliaid a gyrfaoedd gweinyddol, ymgynghori a gwerthu gydag amrywiaeth eang o gwmnïau cyflenwi amaethyddol.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: 53C8 (D4D3 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 Hyd: 3 blynedd (mae D4D3 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Business, Economics and Land Use
- Crop and Grassland Management
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu Da Byw/Introduction to Livestock Production Systems
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Precision Agricultural Technology
- Y Diwydiant Amaethyddol/The Agricultural Industry.

### Yr ail flwyddyn:

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes/Applied Nutrition of Livestock, Horses and Companion Animals
- Systemau Cynhyrchu Da Byw/Livestock Production Systems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods.

### Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol/Research Project or Critical Review
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth/Advances in Agriculture
- Gwyddor Cynhyrchu Da Byw/Livestock Production Science.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.





# Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (4D12)

Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn cynnal yr Arolwg Busnes Fferm blynyddol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r arolwg yn cyfuno data ariannol a ffisegol o tua 600 o ffermydd yng Nghymru ac yn rhoi gwybodaeth hanfodol i lunwyr polisïau ac ymchwilwyr ar y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar ffermio yng Nghymru. O'r herwydd, mae ein staff mewn sefyllfa dda i roi hyfforddiant arbenigol ar reoli busnes, ochr yn ochr â'ch astudiaethau ym maes amaethyddiaeth.

Bydd Amaethyddiaeth gyda Rheolaeth Busnes yn rhoi ichi sylfaen drwyadl o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol ym maes ffermio a masnach fel ei gilydd. Mae'r cynllun hwn yn addas i ymgeiswyr sydd heb gefndir amaethyddol, yn ogystal â rhai sydd â pheth gwybodaeth am amaethyddiaeth, gan ei fod yn rhoi gafael da o systemau a gwyddor amaethyddiaeth ynghyd ag egwyddorion ac arferion busnes. Gydag opsiwn i gymryd blwyddyn mewn diwydiant, a mynediad at y busnesau amaethyddol a ffermydd masnachol niferus yn yr ardal ac yn ehangach, byddwch yn datblygu'r galluoedd a'r sgiliau craidd y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt ac sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli eich busnes eich hun.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Amaethyddiaeth gyda Rheolaeth Busnes yn Aberystwyth:


- cael eich dysgu gan staff arbenigol sy'n ymwneud â'r Arolwg Busnes Fferm yng Nghymru, y ffynhonnell fwyaf awdurdodol o wybodaeth ariannol am fusnesau fferm
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.


### Cyflogadwyedd

Mae'r cyfuniad o wybodaeth a sgiliau y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig yn ddeniadol iawn i gyflogwyr busnesau amaethyddol a nifer o broffesiynau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ac ymgynghori a rheoli ffermydd ac ystadau yn ogystal â chyllido amaethyddol. Mae hefyd yn gymhwyster rhagorol ar gyfer gyrfa mewn busnesau eraill fel y sector bwyd a maeth sy'n tyfu'n gyflym.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: D4N2 (4D12 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 Hyd: 3 blynedd (mae 4D12 yn 4 blynedd).

# Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol)

## BSc (Anrh)

Os ydych chi eisoes wedi pasio HND neu Radd Sylfaen addas (ar lefel teilyngdod neu uwch), mae ein cwrs Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol) yn caniatáu ichi gwblhau blwyddyn arall o astudiaethau er mwyn graddio â gradd BSc.

Bydd ein cynllun Astudiaethau Ceffylau (atodol) yn adeiladu ar sail eich Gradd Sylfaen er mwyn datblygu rhagor ar eich sgiliau mewn agweddau ar reoli ceffylau, a rhoi ichi ddealltwriaeth ddatblygedig o fridio anifeiliaid, a'u maeth. Mae'r cynllun ychwanegol hwn yn eich paratoi ar gyfer rheoli a goruchwyllo mentrau ym maes ceffylau yn y DU a thramor, neu ar gyfer ystod eang o waith ymgynghorol, masnachol ac addysgol yn y sectorau ceffylau a gwledig. Hefyd mae modd trosglwyddo'r sgiliau rheoli busnes a ddysgir i sectorau eraill mewn masnach a diwydiant yn rhwydd, a byddant hefyd o fudd os byddwch am ddechrau busnes eich hunan.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol) yn Aberystwyth:


- astudio gyda'r darparwr cyrsiau ceffylau hynaf yn y DU
- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwyso, solarium, stablau a blychau bwrw ebol gyda chamerau cylch cyfyng, manau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) lle gallwch astudio am gymwysterau BHS.


### Cyflogadwyedd

Nod y cwrs Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol) yw eich paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith ym maes gwyddor ceffylau ac anifeiliaid, ymchwil a datblygu, gwaith ymgynghori a chymorth technegol, a rheoli menter yn y DU a thramor.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: D325.

 Hyd: Cwrs atodol blwyddyn o hyd.

# Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol 28 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D335)

Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn Aberystwyth yw'r unig radd o'i bath yn y DU. Mae'n manteisio ar enw da Aberystwyth fel darparwr cyrsiau ceffylau hirsefydlog, ein cryfderau ymchwil ym maes afiechyd, maeth, atgenhedlu ac ymddygiad anifeiliaid, a'n cysylltiadau cydweithredol â milfeddygon Canolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sylfaen gadarn o safbwynt cysyniadau craidd meddygaeth filfeddygol, gan gynnwys imiwnoleg, prosesau afiechyd, a gwneud diagnosis a thrin afiechyd mewn amryw o rywogaethau. Byddwch yn plethu'r wybodaeth ddamcaniaethol â'r sgiliau ymarferol a fydd yn rhoi pwyslais penodol ar ffisioleg y ceffyl.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn Aberystwyth:

- astudio gyda'r darparwr cyrsiau ceffylau hynaf yn y DU
- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwyso, solariwm, stablau a blychau bwrw ebol gyda chamerau cylch cyfyng, manau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) lle gallwch astudio am gymwysterau BHS
- addysgu a dysgu gyda chefnogaeth ymchwilwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol a milfeddygon go iawn.

### Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn rhoi ichi sylfaen wyddonol helaeth a fydd yn eich paratoi ar gyfer ystod eang o gyfleoedd gyrfaol yn y diwydiant gwyddor anifeiliaid a cheffylau, lles, ymchwil a datblygu, gwaith ymgynghori a chymorth technegol, ac addysg yn y DU a thramor. Mae llawer o'n myfyrwyr sy'n astudio ar y cynllun hwn yn gobeithio mynd ymlaen i astudio meddygaeth filfeddygol ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: D334 (D335 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae D335 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Disease Diagnosis and Control
- Equine Anatomy and Physiology
- Equine Exercise Physiology
- Exploring Genetics
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn:

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes/Applied Nutrition of Livestock, Horses and Companion Animals
- Veterinary Health.

### Y flwyddyn olaf:

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Traethawd Estynedig/Research Project
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.



# Biowyddorau Milfeddygol

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D907)

Mae ein gradd Biowyddorau Milfeddygol yn manteisio ar gryfder Aberystwyth yn y sector iechyd milfeddygol sydd wedi arwain at sefydlu Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, sef yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru. Mae'r radd hon yn cael ei chyflwyno gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag afiechydon a lles milfeddygol, a gan filfeddygon sy'n gweithio yng Nghanolfan Milfeddygaeth Cymru yn Aberystwyth. Mae gennym hefyd gyfleusterau ar gyfer anifeiliaid mawr yn ein ffermydd masnachol a chanolfan ddysgu arbenigol ym maes ceffylau.

Ar y radd hon byddwch yn cyfuno agweddau moleciwlaidd, cellol a ffisiolegol cyfoes er mwyn deall bioleg anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid gwyllt. Bydd eich safbwynt ar iechyd ac afiechyd milfeddygol yn seiliedig ar ymchwil a bydd yn cael ei integreiddio â dealltwriaeth o realiti gwaith milfeddygol. Ymhlith sgiliau lu, byddwch yn dysgu sut i gymhathu gwybodaeth o lenyddiaeth wyddonol, craffu ar ddata o safbwynt ansoddol a meintiol, ymateb i ddata newydd trwy ymchwiliadau labordy, a deall goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer maes milfeddygaeth.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Biowyddorau Milfeddygol yn Aberystwyth:


- cael eich addysgu gan lawfeddygon milfeddygol ac ymchwilwyr milfeddygol o safon fyd-eang
- profiad ymarferol o drin anifeiliaid yn ein canolfan geffylau a'n ffermydd, gyda'r technegau gwyddonol diweddaraf a ddysgir yn ein labordai modern
- cyfleoedd i symud ymlaen i nifer o yrfaeodd milfeddygol gan gynnwys rhaglenni gradd gwyddor filfeddygol ar ôl cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus.


### Cyflogadwyedd

Fel un o'r raddedigion Biowyddorau Milfeddygol, byddwch wedi'ch paratoi'n drylwyr ar gyfer gwaith yn y sector iechyd anifeiliaid, ac wedi'ch ysbrydoli i ymdrin â heriau'r dyfodol, megis esblygiad pathogenau sy'n gwrthsefyll cyffuriau, effeithiau ffermio mwy dwys, a gofalu am anifeiliaid anwes sy'n heneiddio. Mae ein graddedigion mewn sefyllfa dda i weithio mewn meysydd megis ymchwil filfeddygol a labordai diagnostig milfeddygol, ymhlith eraill. Mae llawer o'r myfyrwyr ar y cwrs hwn yn gobeithio mynd ymlaen i astudio milfeddygaeth.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: D906 (D907 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)

 Hyd: 3 blynedd (mae D907 yn 4 blynedd).

# Gwyddor Anifeiliaid

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D307)

Ar ein gradd Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn astudio'r wyddoniaeth gymhwysol sy'n ymwneud ag anifeiliaid dof, gan gynnwys anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes. Mae gennym gyfleusterau rhagorol i gefnogi eich astudiaethau, gan gynnwys ffermydd prifysgol sy'n cael eu rhedeg ar sail fasnachol, canolfan geffylau ar gyfer dysgu, ac amrywiaeth o labordai dysgu ac ymchwil.

Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r fioleg allweddol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid dof, gan gynnwys anatomi, ffisioleg, maeth, gwneud diagnosis o afiechydon, ac ymddygiad. Byddwch hefyd yn gallu datblygu diddordeb penodol mewn gwyddor da byw, gwyddor ceffylau, neu wyddor ymddygiadol, trwy ddewis un o dri llwybr y radd. Bydd gan eich dealltwriaeth academaidd sylfaen gref yng nghyd-destun ymarferol a chymwysedig gwyddor anifeiliaid, a chaiff ei datblygu ymhellach gan ddarlithwyr gwadd o wahanol feysydd o'r diwydiant gwyddor anifeiliaid.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth:


- cael yr opsiwn i dreulio Blwyddyn mewn Diwydiant (D307), sy'n gyfle i ddatblygu sgiliau allweddol er mwyn gweithio yn y sector Gwyddor Anifeiliaid
- y gallu i arbenigo yn y llwybrau Ceffylau, Ymddygiadol, neu Dda Byw
- y cyfle i ddysgu trwy gyfuniad o ddsbarthiadau ymarferol, teithiau maes, dosbarthiadau tiwtorial mewn grwpiau bach, a darlithoedd rhyngweithiol, a fydd yn rhoi gafael gadarn i chi ar y pwnc.

### Cyflogadwyedd

Bydd graddedigion y cwrs hwn yn gymwys i fynd ymlaen i swyddi proffesiynol yn ymwneud â chymhwyso ymchwil wyddonol mewn sefydliadau preifat a chyhoeddus, mewn gwasanaethau cynghori ac ymgynghori, neu ym maes gorfodi deddfwriaeth lles, yn ogystal â'r diwydiannau porthiant anifeiliaid, bridio anifeiliaid, a fferyllo.

## Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: D306 (D307 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)

 Hyd: 3 blynedd (mae D307 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu Da Byw/ Introduction to Livestock Production Systems
- Disease Diagnosis and Control
- Equine Anatomy and Physiology
- Equine Exercise Physiology
- Exploring Genetics
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn:

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes/Applied Nutrition of Livestock, Horses and Companion Animals
- Veterinary Health.

### Y flwyddyn olaf:

- Prosiect Ymchwil/Research Project
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.



# Gwyddor Ceffylau 28% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (D323)

Yn Aberystwyth mae gennym ganolfan neilltuo ar gyfer addysgu ym maes ceffylau gydag amrywiaeth ardderchog o gyfleusterau ymarferol, ac mae gan ein tîm addysgu ddiddordebau arbenigol ym maes ceffylau gan gynnwys atgennedlu, ymddygiad a busnes. Hefyd mae gan Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Chefn Gwlad (IBERS) gryfderau ymchwil mewn gwyddor anifeiliaid yn fwy eang, felly rydym mewn sefyllfa dda i roi hyfforddiant gwyddonol trylwyr sy'n canolbwyntio ar geffylau.

Bydd ein gradd Gwyddor Ceffylau yn rhoi ichi sylfaen gadarn yn y gwyddorau biolegol, ynghyd ag arbenigedd mewn gwyddor ceffylau. Bydd hyn yn cynnwys astudio pynciau fel ffisioleg, geneteg a metabolaeth, anatomi ceffylau, ffisioleg ymarfer ceffylau a'r diwydiant ceffylau, maeth, a ffisioleg atgennedlu. Ar yr un pryd, bydd eich hyfforddiant gwyddonol yn cael ei ategu gan agweddau mwy cymhwysol, megis arferion rheoli ceffylau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Ceffylau yn Aberystwyth:

- astudio gyda'r darparwr cyrsiau ceffylau hynaf yn y DU
- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwysol, solarium, stablau a blychau bwrw ebol gyda chamrau cylch cyfyng, manau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) lle gallwch astudio am gymwysterau BHS
- addysgu a dysgu gyda chefnogaeth ymchwilwyr a gydnybyddir yn rhyngwladol.

### Cyflogadwyedd

Bydd ein gradd Gwyddor Ceffylau yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth mewn gwyddor ceffylau ac anifeiliaid, ymchwil a datblygu, gwaith ymgynghori a chymorth technegol, rheoli menter ac addysg yn y DU a thramor.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: D322 (D323 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae D323 yn 4 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Bioleg Cymhwysol Anifeiliaid/Applied Animal Biology
- Equine Anatomy and Physiology
- Equine Exercise Physiology
- Exploring Genetics
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills.

### Yr ail flwyddyn

- Animal Breeding, Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Equine and Human Exercise Physiology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes/Applied Nutrition of Livestock, Horses and Companion Animals.

### Y drydedd flwyddyn:

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Equine Grassland Management, Nutrition, and Development
- Equine Marketing and Small Business Management
- Equine Stud Management
- Traethawd Estynedig/Research Project.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.





# Gwyddorau Bywyd

## BSc (Anrh)

Mae ein gradd Gwyddorau Bywyd wedi'i chynllunio'n benodol i gynnig llwybr amgen i chi at addysg uwch i astudio un o'n graddau gwyddorau biolegol. Gallech fod yn gymwys i'r cynllun os oes gennych y cymwysterau i fynd ymlaen i addysg uwch ond nid y cymwysterau perthnasol mewn gwyddoniaeth Safon Uwch (neu gyfatebol), os ydych yn dod o gefndir academaidd anhraddodiadol, neu os nad ydych wedi cyflawni'ch potensial addysgol cyflawn hyd yn hyn.

Mae'r flwyddyn sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cael ei dysgu gan staff o'r Adran Gwyddorau Bywyd, ac mae'n cynnwys rhaglen hollol integredig o ddarlithoedd, dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a thiworialau mewn bioleg a phynciau cysylltiedig. Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn ystod o ddisgyblaethau gwyddonol gan gynnwys biocemeg, botaneg, bioleg celloedd, ecoleg, esblygiad, geneteg, microbiolog, swoleg, sgiliau astudio a thechnegau maes a labordy biolegol. Ar ddiwedd y flwyddyn sylfaen, byddwch wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i flwyddyn gyntaf un o'n cynlluniau gradd.

### Cyflogadwyedd

Mae'r radd sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cynnig llwybr at addysg uwch, a thrwy hynny amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant pellach. Gan ddibynnu ar eich dewis o ddisgyblaeth, byddwch yn ymgeisydd cryf am waith fel gwyddonydd ymchwil, swyddog cadwraeth, darlithydd addysg uwch neu athro ysgol uwchradd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

Bydd y modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar ôl eich blwyddyn gyntaf yn dibynnu ar y radd y byddwch yn ei dewis.

I weld y modiwlau sydd ar gael, gweler tudalennau'r radd berthnasol yn y prospectws hwn, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C990.



Hyd: 4 blynedd.





# Amaethyddiaeth (Gradd Sylfaen)

FdSc

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant

(D403)

Mae'r radd hon yn ddewis rhagorol i unrhyw un sydd eisiau hyfforddi fel rheolwr menter amaethyddol, neu ailhyfforddi a dilyn gyrfa ym maes amaeth yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus ac i'r safon angenrheidiol yn gallu symud ymlaen i'n gradd anrhydedd Amaethyddiaeth.

Ar y cwrs hwn byddwn yn eich herio drwy gyflwyno i chi sefyllfaoedd bywyd go iawn, lle byddwch yn astudio cyfuniad o wyddoniaeth, technoleg a rheolaeth fferm i archwilio a deall y ffordd mae dulliau amaethyddol modern yn cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ac yn sicrhau elw i'r busnes fferm. Byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar systemau cynhyrchu amaethyddol, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae'r diwydiant amaethyddol yn newid. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi'r sgiliau ymarferol a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Amaethyddiaeth (Gradd Sylfaen) yn Aberystwyth:

- cael eich dysgu gan ymchwilyr sy'n arbenigwyr yn eu maes
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol ledled y DU yn rhan hanfodol o'r cynllun
- cyfleoedd am brofiad gwaith yn y DU a dramor.

## Cyflogadwyedd

Fel un sydd â Gradd Sylfaen mewn Amaethyddiaeth, byddwch yn gymwys ar gyfer amrywiaeth o waith technegol neu swyddi rheoli ym maes busnes neu ffermio. Byddwch yn gallu defnyddio'r arferion gorau sy'n ymgorffori'r ymchwil gyfredol orau oll, ac arferion hwsmonaeth, a fydd yn eich galluogi i fynd i'r afael â heriau rheoli da byw a chnydau a sicrhau bod eich busnes amaethyddol yn llwyddo i'r eithaf mewn amgylchedd ariannol ac amgylchedd daearyddol heriol sy'n prysur newid.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: Sylfaen.



Cod UCAS: D402 (D403 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 2 flynedd (mae D403 yn 3 blynedd).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Precision Agricultural Technology
- Animal Science
- Business, Economics and Land Use
- Crop and Grassland Management
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu Da Byw/ Introduction to Livestock Production Systems
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Y Diwydiant Amaethyddol/The Agricultural Industry
- Soil and Plant Science
- Datblygu a Rheoli Cynefinoedd ym Mhrydain/ The Development and Management of British Habitats.

### Yr ail flwyddyn:

- Agronomy and Crop Improvement
- Business Budgeting and Appraisal
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd/Food, Farming and the Environment
- Systemau Cynhyrchu Da Byw/Livestock Production Systems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Science and Technology in Agriculture.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.





# Cynlluniau Meistr Integredig

## MAg

Amaethyddiaeth	(D404)
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid	(D4D4)

Bydd ein cynlluniau Meistr Integredig yn rhoi cyfle ichi gyfuno gradd BSc â blwyddyn ychwanegol o astudio fel y byddwch yn graddio â chymhwyster ar lefel Meistr. Mae'r graddau hyn yn datblygu ehangder a dyfnder eich gwybodaeth, ac yn eich paratoi i fod yn arbenigwyr yn y pwnc ac i allu defnyddio datblygiadau arloesol yn effeithiol yn y diwydiant amaeth a'r tu hwnt. Gall y cyrsiau hyn hefyd fod yn gam i raddau ymchwil pellach, a byddant yn datblygu'r sgiliau y mae eu hangen ar weithwyr proffesiynol heddiw.

Yn ystod eich blwyddyn olaf o astudio ar lefel Meistr, cewch gyfle i ddefnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc mewn prosiect ymchwil gwyddonol annibynnol y byddwch yn ymgymryd ag ef mewn cydweithrediad agos ag un o'r grwpiau ymchwil yn yr Athrofa. Byddwch hefyd yn astudio modiwlau wedi'u haddysgu yn ystod eich cwrs â'r nod o'ch cyflwyno i rai o dechnegau a gwybodaeth fwyaf cyfoes y gwyddorau amaethyddol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr gradd Meistr Integredig yn Aberystwyth:

- mynediad i ffermydd y brifysgol lle ceir buches 350 o wartheg a gaiff ei godro mewn parlwr robotig, 1,000 o ddefaid gan gynnwys diadell o ddefaid Texel pedigri, ac â'r masnachol, cnydau porthiant a glaswelltir
- cyfleusterau ymchwilio i wyddor a chynhyrchu cnydau sy'n cynnwys Canolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion y DU, Rhaglenni Bridio Planhigion sy'n sail i waith Cynhyrchu Hadau masnachol, Bio-fanc hadau sy'n rhan o Grŵp Adnoddau Geneteg Planhigion y DU, cyfleusterau ymchwilio cnydau hydroponig, a Chanolfan Bioburo BEACON
- cyfleusterau gwyddor, cynhyrchu ac iechyd da byw sy'n cynnwys Llwyfan Anifeiliaid Cnoi Cil Bach (Defaid) Canolfan Rhagoriaeth Arloesi Da Byw y DU, Cyfleuster Ymchwil i Dwbercwlosis Buchol VetHub1, cyfleusterau Parasitoleg Milfeddygol a pherthynas waith agos â Chanolfan Milfeddygaeth Cymru
- mynediad i Ganolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran a Champws Arloesi a Menter Aberystwyth, sef lleoliad Canolfan Bwyd y Dyfodol, sy'n amgylchedd addas ar gyfer profi, dilysu a gwella deunyddiau bwyd presennol a newydd.

## Ffeithiau Allweddol



Math o radd: MAg.



Hyd: 4 blynedd.

## Modiwlau craidd

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn olaf:

- MBIol Research Project
- Research Methods in the Sciences.



ar gael drwy'r Gymraeg

- 44% MAg Amaethyddiaeth (D404)
- 44% MAg Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (D4D4)

## Cyflogadwyedd

Mae ein graddau Meistr Integredig wedi'u creu'n benodol er mwyn diwallu'r galw cynyddol am staff â'r cymwysterau addas i weithio ar lefel uchel mewn Amaeth a'r diwydiannau perthynol. Bydd y sgiliau penodol i'r pwnc a ddatblygir ar y cwrs hwn yn galluogi i fyfyrwyr dargedu gyrfaoedd mewn gwaith amaethyddol ymgynghorol, agronomeg, rheoli ffermydd, iechyd a maeth da byw a'r holl swyddi eraill perthynol. Mae'r radd Meistr Integredig mewn Amaethyddiaeth hefyd yn opsiwn amgen cydnabyddedig i'r MSc er mwyn symud ymlaen i astudio am ddoethuriaeth, ac y mae hefyd yn sylfaen ragorol ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd proffesiynol.





# Blwyddyn integredig mewn diwydiant

Os ydych chi'n dymuno ehangu eich gorwelion a chael blas o'r gweithle neu brofi gyrfa drwy leoliad gwaith, bydd y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn cryfhau ac yn gwella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl graddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau anrhydedd sengl ar gael gyda'r opsiwn o gael blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Cynhelir y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn ac yna byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn. Caiff y flwyddyn ei hasesu ac mae'n cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

Manteision:

- Mwy cyflogadwy wrth raddio
- Mwy tebygol o gael cyflog cychwynnol uwch
- Mwy tebygol o sicrhau swydd ar lefel gradd.

Mae ein myfyrwyr wedi nodi manteision ychwanegol:

- Dod i wybod beth hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd ar ôl graddio
- Profiad gwych - archwilio maes newydd a all fod dramor
- Gwneud eich blwyddyn olaf yn haws
- Datblygu eich rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

Gall ceisiadau a chyfweliadau gymryd llawer o amser a byddwch yn graddio flwyddyn yn hwyrach na'ch ffrindiau yn y brifysgol, ond mae manteision y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn bendant yn gorbwysu'r anfantaision.


Pa gymorth sydd ar gael?

- Ceir cymorth gan aelod academiaidd o staff sy'n bennaf gyfrifol am fyfyrwyr y flwyddyn integredig mewn diwydiant ac ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran, yn gweithio law yn llaw gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Yn eich blwyddyn gyntaf cewch arweiniad ar sut i archwilio cyfleoedd gyrfa a chryfhau eich cyflogadwyedd
- Yn eich ail flwyddyn byddwch yn cael help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol a gwneud ceisiadau. Byddwch yn derbyn ymarfer cyfweiliad ffurfiol a chymeradwyaeth swyddogol i'ch lleoliad(au)
- Yn ystod eich Blwyddyn mewn Diwydiant byddwch yn cael cyswllt a chefnogaeth reolaidd a bydd goruchwyliwr academiaidd yn ymweld â chi.

## Megan, Rhaglen Ffermwr Ifanc Blaengar McDonald's, y DU

Mae fy lleoliad gwaith gydag Avara Foods a Cargill Protein Europe. Rwy'n dilyn y dofednod o'r stoc bridio, deor a magu cywion brwlyio hyd at brosesu sylfaenol yn y ffatri. Rwyf i wedi gweithio yn y tîm Datblygu Cynhyrchion Newydd yn ogystal ag ar lawr y ffatri, logisteg a chysylltiadau cwsmeriaid. Rwyf i'n gorffen y flwyddyn yn gweithio mewn bwyty McDonald's am 3 diwrnod, yn gweini'r cynnyrch terfynol.

Ar ôl fy mlwyddyn mewn diwydiant, rwy'n edrych ar fy ngradd o safbwynt gwbl wahanol; gallaf werthfawrogi nawr sut mae'n bosibl cymhwyso'r hyn rwyf i'n ei ddysgu yn y Brifysgol yn y sector amaethyddol. Byddwn i'n bendant yn argymhell y rhaglen ac os ydych chi'n ystyried ymgeisio am leoliad gwaith y flwyddyn nesaf - cer amdani!





# Cyfleoedd byd-eang



Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.



Sydney



Denmarc



Montana



St. Petersburg



Hong Kong



Washington, DC



Bergen



Awstria



Ottawa



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio pob cynllun gradd israddedig yn Adran Gwyddorau Bywyd yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai cynlluniau gradd, mae dros hanner y modiwlau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddewis cyflwyno eich holl waith cwrs, yn cynnwys aseiniadau a chyflwyniadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau eich arholiadau ysgrifenedig yn Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r modiwl. Mae'r Adran hefyd yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n gallu siarad yr iaith. Mae'r trefniadau addysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd Cymraeg.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd swyddi, cael eich addysgu mewn grwpiau llai a bod yn rhan o gymuned Gymraeg gyfeillgar a chroesawgar.

Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth astudio cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, werth hyd at £250 y flwyddyn. Ymhellach, mae llawer o gyrsiau gradd Adran Gwyddorau Bywyd yn gymwys am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd werth £1500 dros dair blynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau hyn ac i gael rhestr o'r cynlluniau gradd cymwys gweler gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: [www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwrygymraeg](http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwrygymraeg)





# Ymchwil

Mae'r Adran Gwyddorau Bywyd yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n cynnig cyfeusterau unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang fel diogelwch bwyd, bioynni a chynladwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwyddonwyr yn cynnal ymchwil ar enynnau a moleciwlau, organebau cyfan a'r amgylchedd.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion yn adnodd pwysig i lawer o'n gwyddonwyr cnydau. Mae'n cynnig y llwyfannau ffenoteipio arloesol diweddaraf â'r nod o gyflenwi datrysiadau ffenoteipio integredig ar gyfer rhywogaethau cnydau allweddol a model. Drwy ddefnyddio technolegau arloesol mae'n gallu mesur perfformiad a ffisioleg planhigion ar wahanol raddfeydd, o'r moleciwlaid a'r cellol i lefel organ a phoblogaeth.

## Systemau Anifeiliaid

Mae'r grŵp Systemau Anifeiliaid yn astudio ffyrdd mwy effeithlon o greu cynhyrchion anifail ansawdd uchel gyda phwyslais ar anifeiliaid cnoi cil (llaeth, eidion a defaid). Y nod yw datblygu systemau amaethyddol arloesol i gyflenwi gwelliannau mewn cynhyrchedd amaethyddol, diogelu amgylcheddol, sefydlogrwydd economaidd ac iechyd anifeiliaid, a systemau bwydo fydd yn gwella iechyd yr anifail ac ansawdd y cynnyrch anifail, fydd yn y pen draw yn arwain at ddefnyddwyr iachach.

## Methodolegau Bridio

Prif ffocws y grŵp Methodolegau Bridio yw datblygu ymagweddau newydd at fridio planhigion, datblygu technolegau newydd ar gyfer genoteipio a ffenoteipio a chanfod sail enetig nodweddiad sy'n ddefnyddiol i fridwyr a chadwraeth. Ymhlith y prif rywogaethau planhigion yr ymchwiliir iddynt mae rhygwellt, codlysiau, ceirch, meillion a Miscanthus.

## Ecosystem Perfedd Llysyddion

Deall a thrin swyddogaeth rwmen yw diddordebau'r grŵp hwn. Nod allweddol yw lleihau allyriadau annymunol gan anifeiliaid cnoi cil, yn bennaf gwartheg a defaid, fel methan a nitrogen. Defnyddir ymagweddau moleciwlaid, yn cynnwys dilyniannu DNA trwybwn uchel ar gyfer profilio metagenomig a thrawsgriptomig, a dadansoddi metabolion di-darged. Gyda'r technolegau hyn rydym ni'n datblygu ac yn cymhwyso ymagweddau integrediol i ecoleg ficrobaidd y defnydd o borthiant ac yn archwilio rhyngweithio bacteria, ffwng, siliadau a methanogenau.

## Bridio Planhigion er Lles y Cyhoedd

Ffocws y grŵp hwn yw'r potensial sydd gan welliannau genetig i gefnogi defnydd tir amlwrpas a lleddfu effeithiau amgylcheddol yn ogystal ag ymdopi gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae ymchwiliwyr yn datblygu mathau arloesol o wair, meillion, ceirch a miscanthus sy'n cael effaith sylweddol yn y farchnad a defnydd terfynol. Drwy gyfuno ymagweddau confensiynol a moleciwlaid at fridio planhigion gyda ffenoteipio trwybwn uchel, nod y grŵp yw datblygu mathau gwell o blanhigion a gaiff eu marchnata gan ein partneriaid masnachol.

## Grŵp Ymchwil Bioleg Planhigion ar gyfer y Fioeconomi Gynaliadwy

Mae'r grŵp hwn yn ymgymryd â bioleg planhigion a bridio a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n berthnasol i gynhyrchu biomas drwy gasglu a nodweddu germplasm perthnasol yn y canolfannau amrywiaeth; bridio croesrywiaw cnwd uchel â gwydnwch yn erbyn sychder, oerfel a metel trwm i alluogi planhigion i dyfu ar droed ymylol yn yr hinsoddau cyfredol ac yn y dyfodol; a deall a thrin blodeuo a heneiddio er mwyn bridio gwell croesrywiaw. Mae'r technegau allweddol a ddefnyddir yn ein hymchwil yn cynnwys rheoli maetholion, sefydlu nitrogen, ailgylchu potasiwm ac atafaelu carbon.





# Uchafbwyntiau ymchwil

## Alpacas yng nghanolfan ymchwil yr ucheldir

Mae ein hymchwilyr yn ymchwilio a yw alpaca De America yn addas ar gyfer bywyd ym mryniau Cymru lle mae ansawdd y gwair yn aml yn is ac yn anaddas i ddefaid. Gallai hyn gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer ffermio yn yr ucheldiroedd. Mae'r gyr yn ymgartrefu'n hapus i'w bywyd ym Mynyddoedd Cambria ac wedi geni dau alpaca bach neu cria dros y misoedd diwethaf.



## Troi gwastraff fferm yn borthiant anifeiliaid protein uchel

Mae ein gwyddonwyr yn ymchwilio sut y gellid defnyddio slyri a dŵr gwastraff o'r diwydiant llaeth i gynhyrchu porthiant ynni uchel, cost isel ac ecogyfeillgar i dda byw. Y nod yw defnyddio gwastraff fferm i dyfu llinad y dŵr - biomas planhigion sy'n tyfu'n gyflym ac y gellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell protein ar gyfer porthiant da byw. Rhagwelir y gallai defnyddio'r cynhyrchion gwastraff ar y fferm arwain at well ansawdd dŵr mewn afonydd ac ardaloedd arfordirol.

## Tŷ gwydr arloesol sy'n bwydo'r byd yn dod yn wyrddach

Mae ein tŷ gwydr arloesol yn y Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion lle'r ydym ni'n bridio planhigion y genhedlaeth nesaf wedi gweld gostyngiad o 60 tonnelli yn ei allyriadau carbon bob blwyddyn drwy osod goleuadau LED newydd. Y tŷ gwydr yw un o'r unig rai o'i fath yn y DU ac un o lond llaw yn unig o gyfleusterau tebyg drwy'r byd. Mae'r Ganolfan yn gartref i waith ymchwil arloesol gyda biolegwyr yn gweithio gyda pheirianwyr, gwyddonwyr cyfrifiadurol a mathemategwyr i ganfod a datblygu cynydu gwydn a all helpu i frwydro effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth, fel gwydnwch cynyddol yn erbyn sychder a'r gallu i oroesi llifogydd.



## Brwydro TB Gwartheg

Mae ein gwyddonwyr wedi datblygu profion croen sy'n gallu gwahaniaethu rhwng anifeiliaid sydd wedi'u heintio â TB gwartheg a'r rheini sydd wedi'u brechu yn erbyn y clefyd. Bydd y profion newydd yn hwyluso rhaglenni brechu byd-eang fydd yn lleihau trosglwyddo'r clefyd hynod heintus hwn o wartheg i bobl.



# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!





Adran Gwyddorau Bywyd  
Prifysgol Aberystwyth,  
Penglais,  
Aberystwyth,  
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 62 1986

ibers@aber.ac.uk

/IBERSAberUni

@ibers\_aber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
Marchnata a Denu Myfyrwyr,  
Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur  
wedi'i ailgylchu 100%